



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiadur Stocio Glastir – Tir Comin Cyfarwyddiadau Desg ‘Sut i Lenwi’ ar gyfer Cymdeithasau Pori ar gyfer Opsiyau 1a (Stocio Safonol) ac 1b (Stocio Hyblyg)

Dyddiadur Stocio ar gyfer Blwyddyn Galendr a Blwyddyn Cynllun 2018

Un o ofynion Cynllun Glastir – Tir Comin yw llenwi a chyflwyno dyddiadur stocio dyddiol ar gyfer 12 mis llawn y flwyddyn flaenorol (2018 yn yr achos hwn).

Rhaid cyflwyno'r dyddiadur hwn i Lywodraeth Cymru erbyn 14 Ionawr 2019.

Drwy ddefnyddio'r templed a ddarperir, byddwch yn helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i ddilysu'r dyddiadur yn gywir ac yn fwy effeithlon cyn.

Mae gofyn llenwi a chyflwyno'r dyddiadur hwn ar gyfer pob un o flynyddoedd y Contract Glastir – Tir Comin.

Esboniad o'r Tabiau

Cyfanswm (Cymdeithas Bori) – mae'r tab hwn yn rhoi cyfanswm yr holl anifeiliaid ac yn cyfrif yr Unedau Da Byw ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn galendr. Mae'r tab hefyd yn rhoi cyfanswm yr wybodaeth a nodwyd o dan y tabiau Porwr 1, Porwr 2 etc ac yn dangos y dyddiad perthnasol a'r math o anifail yn y tab.

Rhestr Porwyr – mae'r tab hwn yn dangos yr holl borwyr ar y Comin. Dylech roi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani o dan y penawdau. Mae cwymplen 'Ewch i'r Tudalen Porwyr' ar gael ar frig y sgrin hefyd. Gallwch ddewis y gwymplen hon a mynd i tab porwr penodol.

Porwr 1, Porwr 2 etc – Dyma lle bydd pob porwr unigol yn cofnodi symudiadau stoc ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ac yna ei bwydo i mewn i'r tab Cyfanswm.

Sut i llenwi'r Templed

Cyfanswm (Cymdeithas Bori)

Rhowch yr wybodaeth isod ar y tab 'Cyfanswm (Cymdeithas Bori)' ar frig y sgrin:

- Enw Masnachu eich Cymdeithas Bori
- Blwyddyn (dylai ddangos 2018)

Rhestr Porwyr

Llenwch yr holl fanylion y gofynnir amdanynt yn y penawdau o dan y tab hwn.

Porwr 1, 2, 3 etc.

Rhaid llenwi'r tabiau Porwr 1, 2, 3 etc er mwyn cyfrif cyfanswm yr Unedau Da Byw ar yr tir ar unrhyw ddiwrnod yn ystod y flwyddyn galendr. Ar frig y sgrin, dylech roi enw'r Porwr; dylech hefyd gynnwys yr Enw Masnachu a'r CRN.

'Dyddiad Stocio' – o dan y golofn hon, dylech nodi'r dyddiad y newidiodd y lefelau stocio. Dylai'r cofnodion ddangos yr anifeiliaid a oedd ar y comin am hanner nos.

h.y. Ar 01 Awst, mae 100 o anifeiliaid blwydd oed ar y comin yn y bore ac yna mae'r nifer yn cynyddu i 200 yn y prynhawn. Dylech gofnodi 200 ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Nodwch nifer yr anifeiliaid ym mhob colofn, gan ofalu eich bod yn defnyddio'r golofn gywir, oherwydd gallai peidio â gwneud hynny arwain at gosb am orbori/tanbori'r comin. **Mae'n bosibl y bydd cosb hefyd os nad yw'r dyddiadur stocio'n cael ei gadw'n gywir.**

Bydd y dyddiadur yn trosi nifer yr anifeiliaid yn Unedau Da Byw – nid oes angen i'r Porwr/Cymdeithas Bori drosi nifer yr anifeiliaid yn Unedau Da Byw.

Dylech sicrhau eich bod yn cofnodi'r holl fanylion yn gywir cyn cyflwyno'r templed i'w ddilysu gan Lywodraeth Cymru.